UNDEB YR ATHRAWON CYMRU
NASUWT THE TEACHERS' UNION

# CYFLOG ATHRAWON HEB GYMHWYSTER A'R CYFLOG BYW CENEDLAETHOL

# BWLETIN

**Cyflog Athrawon Heb Gymhwyster a'r Cyflog Byw Cenedlaethol, Diweddariad Cymru a Lloegr Hydref 2025**

Gallai cyflogwyr fod yn torri deddfwriaeth y Cyflog Byw Cenedlaethol os ydynt yn cyfarwyddo'r rhai ar raddfeydd cyflog athrawon heb gymhwyso i weithio mwy na 36 awr yr wythnos yn Lloegr, neu 36.5 awr yng Nghymru mewn unrhyw wythnos benodol o'r flwyddyn ysgol.

**Y Cyflog Byw Cenedlaethol – Cyflwynwyd 1 Ebrill 2016**

Mae gweithwyr 21 oed a throsodd yn derbyn yr Cyflog Byw Cendlaethol – yr isafswm cyflog i weithwyr.

O fis Ebrill 2025 ymlaen, y cyfraddau yw £12.21 yr awr i weithwyr 21 oed a hŷn.

Mae hyn yn cyfateb i gyflog blynyddol o £22,222 i weithiwr sy'n gweithio 35 awr bob wythnos dros gyfnod o 12 mis.

Gweler: Cyfraddau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r Cyflog Byw Cenedlaethol – https://www.gov.uk/national-minimum-wage-rates#

**Yr Ystod Cyflog Athrawon Heb Gymhwyster yn Lloegr**

Mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol wedi cynyddu bron i 70% dros y naw mlynedd diwethaf, o'i gymharu â'r cynnydd o 30% y mae graddfeydd cyflog athrawon heb gymhwyso wedi cynyddu.

**Cyflog Byw Cenedlaethol a Lefelau Cyflog Athrawon Heb Gymhwyster (Lloegr), 2016 a 2025**

| Blwyddyn | Cyflog Byw Cenedalethol | HG1 | HG2 | HG3 | HG4 | HG5 | HG6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 Ebrill 2016 | £7.20 | £16,461 | £18,376 | £20,289 | £22,204 | £24,120 | £26,034 |
| 1 Ebrill 2025 | £12.21 | £21,731 | £24,224 | £26,716 | £28,914 | £31,410 | £33,902 |
| Cynydd canrannol | 70 | 32 | 32 | 32 | 30 | 30 | 30 |

Atgynhyrchir yr ystod cyflog ar gyfer athrawon heb gymhwyso yn Lloegr (ac eithrio Llundain a'r Ymylon) ar gyfer 2025-26 yn y tabl isod, ynghyd â dadansoddiad NASUWT, sy'n dangos y gyfradd gyflog fesul awr gyfatebol ar gyfer athrawon heb gymhwyso ar bob pwynt cyflog yn seiliedig ar nifer yr oriau posibl a weithir mewn wythnos – wedi'i gosod ar 35 awr, 35.5 awr, 36 awr, 37.5 awr, 40 awr a 50 awr.

UNDEB YR ATHRAWON CYMRU
NASUWT THE TEACHERS' UNION

| Ystod cyflog ar gyfer athrawon heb gymhwyso yn Lloegr (ac eithrio Llundain a'r Ymylon) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1 Medi 2025 to 31 Awst 2026** | | **Cyfradd awr (£) y cyflog blynyddol fesul nifer o orau yr wythnos** | | | | | |
| | **Annual** | **35** | **35.5** | **36** | **37.5** | **40** | **50** |
| **1 (Lleiafswm)** | £22,601 | £12.42 | £12.24 | £12.07 | £11.59 | £10.87 | £8.69 |
| **2** | £25,193 | £13.84 | £13.65 | £13.46 | £12.92 | £12.11 | £9.69 |
| **3** | £27,785 | £15.27 | £15.05 | £14.84 | £14.25 | £13.36 | £10.69 |
| **4** | £30,071 | £16.52 | £16.29 | £16.06 | £15.42 | £14.46 | £11.57 |
| **5** | £32,667 | £17.95 | £17.70 | £17.45 | £16.75 | £15.71 | £12.56 |
| **6 (Uchafswm)** | £35,259 | £19.37 | £19.10 | £18.83 | £18.08 | £16.95 | £13.56 |

Mae'r ffigurau a amlygwyd mewn coch yn dangos amgylchiadau lle byddai athro heb gymhwyso yn derbyn llai na'r Cyflog Byw Cenedlaethol o £12.21 yr awr.

Mae'r tabl yn dangos mai dim ond cyfradd fesul awr o £12.07 yr awr y byddai athro heb gymhwyso ar HG1, sy'n cael ei gyfarwyddo i weithio 36 awr, neu fwy yr wythnos, yn ei dderbyn.

Mae'r ffigurau uchod yn dangos pa mor hawdd fyddai i ysgolion dorri darpariaethau'r Cyflog Byr Cenedlaethol yn anfwriadol.

### NASUWT – Niferoedd Athrawon Heb Gymhwyso

Ar hyn o bryd mae gan NASUWT 595 o aelodau sydd wedi dweud wrthym yn benodol eu bod yn athrawon heb gymwysterau, ac mae 520 ohonynt wedi'u lleoli yn Lloegr, 64 yn yr Alban, deg yng Nghymru, ac un yng Ngogledd Iwerddon. Mae hyn yn debygol o fod yn llawer uwch oherwydd mae'n seliedig ar y data y mae aelodau'n ei gyflwyno pan fyddant yn ymuno â NASUWT.

### Cyfrifiad y Gweithlu Ysgol – Athrawon heb gymhwyso

Mae Cyfrifiad y Gweithlu Ysgolion (Lloegr) yn cofnodi bod 17,918 o athrawon heb Statws Athro Cymwysedig (SAC) mewn cyfanswm o ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth yn 2024-25.

Mae hyn yn cyfateb i 15,675 o athrawon cyfwerth ag athro amser llawn (FTE) heb SAC mewn cyfanswm o ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth yn 2024-25, neu 2.74% o'r gweithlu athrawon.

Mae cyfran yr athrawon heb gymhwyso wedi aros yn gyson ers 2010.

Gweler: SWC 2024: https://explore-education-statistics.service.gov.uk/data-tables/permalink/a0d7d5c3-fb85-49d6-a8e0-08ddb31391cd

**Pwy yw'r athrawon heb gymhwyso?**

### Athrawon cyflogedig

Mae athrawon heb gymhwyso yn cynnwys y rhai sydd ar gwrs hyfforddi athrawon cyflogedig (e.e. Teach First), neu athrawon sydd wedi gweithio y tu allan i'r DU nad oes ganddynt gymhwyster addysgu ond sy'n bodloni'r gofynion cymhwysedd ar gyfer SAC asesiad-yn-unig, tua 1,800 y flwyddyn academaidd hon.

### Athrawon o dramor

Mae dau brif gategori o athrawon tramor, tua 1,200 y flwyddyn academaidd hon.

**(1) Deiliaid Cyfwerth â SAC:** Y rhai y mae eu cymhwyster addysgu wedi'i gydnabod fel un cymharol ac sy'n derbyn cydnabyddiaeth SAC awtomatig. Telir y grŵp hwn ar y Prif Ystod Gyflog/Ystod Gyflog Uwch.

**(2) Llwybr asesedig:** Y rhai sydd â chymhwyster addysgu nad yw'r DU yn ei gydnabod fel un cyfatebol. Maent yn gweithio tuag at ennill SAC ac yn cael eu penodi i'r graddfeydd cyflog athrawon heb gymhwyster.

### Athrawon heb gymhwyso hir-dymor

Y grŵp hwn yw'r mwyaf, gan cynnwys bron i 16,000 o athrawon. Maent yn cynnwys athrawon cerddoriaeth teithiol, athrawon celfyddydau perfformio, hyfforddwyr chwaraeon ac athrawon nofio. Mae'r grŵp hwn hefyd yn cynnwys athrawon heb gymhwyso hirdymor NAD ydynt ar daith i ennill SAC.

### Cymru

Mae'r sefyllfa yng Nghymru yn debyg, er bod y cyfraddau cyflog yng Nghymru ychydig yn uwch, sy'n golygu y byddai'n rhaid i weithwyr ar U1 ar yr Ystod Gyflog Athrawon Heb Gymhwyster yng Nghymru weithio 36.5 awr yr wythnos cyn torri darpariaethau'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

### Camau nesaf:

- Bydd angen i ysgolion sicrhau bod athrawon heb gymhwyso ar U1 yn gweithio llai na 36 awr yr wythnos yn Lloegr, a llai na 36.5 awr yr wythnos yng Nghymru.
- Gweithredu cynnydd dyfarniad cyflog uwch ar gyfer yr Ystod Gyflog Athrawon Heb Gymhwyster yn y blynyddoedd dilynol i ragflaenu sefyllfa lle mae U1 yn disgyn islaw'r Cyflog Byw Cenedlaethol, neu i ddiddymu U1 ar yr Ystod Gyflog Athrawon Heb Gymhwyster. Mae hyn yn rhan o'n tystiolaeth i'r cais am Dystiolaeth Ysgrifenedig ar gyfer 36ain Adroddiad y Corff Adolygu Athrawon Ysgol ar gyfer Lloegr ar gyfer 2026/27 a thu hwnt.

Rydym hefyd wedi gofyn i'r Adran Addysg gynnwys canllawiau o fewn y STPCD i sicrhau nad oes gofyn i athrawon heb gymhwyso ar U1 weithio mwy na 35 awr yr wythnos, ac mae sylwadau tebyg yn cael eu gwneud i Lywodraeth Cymru.

Rydym wedi codi'r mater ac wedi rhannu'r manylion gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol (CLlL), gan eu hannog i gyhoeddi canllawiau i gyflogwyr.

Os am ragor o gyngor cysylltwch â 02920 546080 i siarad hefo ein cynghorwyr cyflogaeth.